

EMYN GŴYL DEWI

I TI, O Dad cenedloedd byd,
Rheolwr trai a llanw'u llwydd,
Ymgrymwn ninnau Gymry ynghyd
Ar ddydd ein hoffrwm yn dy ŵydd.

Wrth droi yn ôl a chanfod rhawd
Ein hymdaith i'r gorffennol draw,
Ein hunig ymffrost, druain tlawd,
Yw dawn dy gariad ar bob llaw.

Etholaist ni i gadw'r sôn
Am deyrnas nef rhwng bryniau'n gwlad,
A dwys gyhoeddi hedd yr Iôn
I fyd ar lawr dan loes a brad.

Trofaus, er hyn, a fuom ni,
A'th Air sy'n ddibris yn ein plith,
A throesom ffordd dy gymod di
Yn gyfle i'n hymrafael chwith.

Mewn edifeirwch down yn awr,
A'n pryder am a ddaw'n dwysáu;
Cryfha ni, os dy ewyllys fawr
Yw galw'n pobloedd i barhau.

Er mwyn cenedloedd daear faith
Sy'n blant dy arfaeth di i gyd,
Glanha ni, fel y byddo'n gwaith
Yn waith dy deyrnas yn y byd.

T. Eirug Davies (1892 – 1951)

GŴYL DEWI

TYDI, O Dduw, a beraist
Dy foliant ym mhob iaith,
Ac ym mhob gwlad a godaist
Broffwydi a t dy waith;
Clyw foliant gwlad y bryniau
Ar dafod ac ar dant
Am anfon atom ninnau
Golomen Dewi Sant.

Trwy'n gwlad tramwyodd d'Ysbryd
O'i mynydd hyd e i môr,
Disgleiria blodau'r gwynfyd
Yn llwybrau saint yr Iôr.
O luniwr glân yr eirllys
A chennin aur y pant,
Gwna di'n bywydau'n ddilys
Fel buchedd Dewi Sant.

Y pethau bychain hynny
A welsom ganddo ef,
O dyro ras i'w dysgu
Yn awr er teyrnas nef.
Rhag awel bêr Glyn Rhosyn
Gwasgarer llid a chwant,
Nes uno'n gwlad yn rhwymyn
Brawdoliaeth Dewi Sant.

Rhoist lamp y Gair i arwain
Ein gwlad trwy'r hirnos ddu;
Ar weddi'r saint bu d'adain
Tros fywyd Cymru Fu.
O Arglwydd Dduw ein tadau,
Bydd eto'n Dduw eu plant,
A chadw'n Cymru ninnau
Yn Gymru Dewi Sant.

Albert Evans Jones ('Cynan' 1895 – 1970)

DATHLU GŴYL DEWI

CRIST yr Athro mawr a'n dysgodd
Sut i barchu deddfau Duw,
Dysgu inni werth cymydog
A gwir werth pob enaid byw.
Yn ein gwlad fe gawsom ninnau
Ddewi Sant i'n dysgu ni,
A'i anogaeth lawen ydoedd,
“Cadw'r ffydd a gedwais i.”

Gwneud 'y pethau bychain' pwysig,
Bod yn llawen yn ein gwaith,
Ydoedd gwir ddymuniad Dewi
Yn ei bregeth ben-y-daith.
Ac wrth Grist y dysgodd yntau
Beth yw rhinwedd dysg a moes,
Beth yw'r cysur, beth yw'r gobaith
Gawn wrth ganlyn Crist y Groes.

Ninnau yn ein dathlu heddiw,
Canwn glod ar uchel dant,
Am mai dilyn gwersi Iesu
Wnaed ym mywyd Dewi Sant,
Yn gyd-Gymry, ymfalchïwn
Yn y traddodiadau gwiw,
Wrth eu cynnal yn ddiollwng
Y sefydlwn Deyrnas Dduw.

Norah Isaac (1914 – 2003)

GŴYL DEWI

MOLIANNWN di, O Dduw,
am Dewi Sant,
dy gennad di i'n gwlad
a nawdd i'w phlant;
deisyfwn feddwl pur
wrth gadw'r ŵyl,
a'r heniaith ar ein min
yn ennyn hwyl.

Moliannwn di, O Dduw,
am sant a roes
ei ddoniau i ryddhau
dy Air i'w oes;
boed cofio'i aberth ef
a'i fuchedd lân
droi'n her i wneud ein rhan
yng ngwlad y gân.

Moliannwn di, O Dduw,
am sant a'i sêl
dros gadw'r ffydd yn ffordd
i'r oes a ddêl;
a'r pethau bychain sydd
mor fawr eu gwerth,
fe'u gwnawn, er mwyn dy was
ond cael dy nerth.

T. Elfyn Jones (1914 – 2008)

EMYN GŴYL DEWI

TYDI sy'n anfon gweision
i'r maes i daenu'r had,
O pâr i lafur Dewi
ddwyn cynnyrch yn ein gwlad.

Tydi a roes i Gymru
yn nawdd, ddewisol sant,
O dyro eto ddeuparth
o'i ysbryd ar dy blant.

Tydi a roes i'n gofal
drysorau'r heniaith wiw,
O cadarnha'n diofryd
tra bôm, i'w cadw'n fyw.

Tydi sy'n cynnal gobaith
am weled tecach dydd,
meddianna di ein calon
â'th rym i gadw'r ffydd.

T. Elfyn Jones (1914 – 2008)

GŴYL DEWI

DIOLCH, Arglwydd, am ein Nawddsant

Fu'n tramwyo drwy ein gwlad,

Gan bregethu, a chynghori

Sut i warchod ein hystâd.

Diolch, Arglwydd, am ei fywyd

Dreuliodd beunydd er dy glod,

Dyna fu ei bennaf amcan

Tra yn rhodio is y rhod.

Dyro, Arglwydd, inni barchu

Ein traddodiad hardd a phur,

Cadw'n hiaith a'n crefydd fynnom

Yn llewyrchus yn ein tir.

Beryl Davies

GŴYL DEWI

TI, Dad pob llwyth o dan y rhod,
Bendithia'n cwrdd er mwyn dy blant;
Â chalon wresog rhoddwn glod
I'th enw di ar ddydd ein Sant.

Rho inni'r gras a'i gwnaeth yn gryf
I godi'r gwan a phuro'i foes;
Rho inni'r gred a'i gwnaeth yn hyf
Dros deyrnas Crist yng ngolau'r groes.

Rho inni'r sêl a'i taniodd gynt
I ddifa llygredd o bob rhyw,
A deued eto ar ei hynt
Ei ysbryd ef yn gennad byw.

Rho inni flas ar eiriau'r nef
Yn iaith ein gwlad i'w hachub hi;
Cyfoded cewri eto'u llef
I chwalu niwloedd Calfari.

O Dad pob llwyth o dan y rhod,
Dysg ni ein bod bawb iti'n blant,
A heddwch byd fo uchel nod
Pob Cristion sy'n coffáu ein Sant.

R. H. Gruffydd

GŴYL DEWI

ARGLWYDD, gwrandu'n gweddi heddiw,
I rinweddau pur ein Sant
Gael blaguro gyda'r gwanwyn
Yng nghalonnau gwâr y plant.
Dysg yr ifanc i aredig
Pridd y grynnau caled, llwm,
Lle caiff hedyn yr Efengyl
Ddaear i egino'n drwm.

Tywallt yma wlith dy fendith
Lle bu crino ar ein hiaith,
Fel bo grym y pethau bychain
Eto'n bŵer ar y daith.
Sanctaidd ydyw'r dŵr a darddodd
Ar gyffyrddiad dwys ei law,
Dysg i ni, er pob temtasiwn,
Gadw'r ffynnon rhag y baw.

Maddau inni, bererinion
Sy'n gwastraffu'r dorth a'r dŵr,
Am ein bod yn mynnu crwydro
I'r ffordd lydan fawr ei stŵr,
Deued eto ysbryd Dewi
I gynhyrfu tir ein gwlad,
Gyda'i ffydd dilynwn ninnau
Mewn gwyleidd-dra ei grwsâd.

Vernon Jones

GŴYL DEWI

EIN nefol Dad, O clyw ein cri
Rho gymorth i'th addoli di
Â newydd gân.
I'r rhai a berthyn iddi hi
Rho galon lân.

Dysg inni gadw'n cred a'n ffydd
A rhodio megis plant y dydd,
Nid mewn caethiwed, ond yn rhydd
I wneud ein rhan,
Cans hebot ti 'does arall sydd
A'n deil i'r lan.

Gwna ni yn llawen ar bob pryd
Gan hau goleuni yn y byd,
A chofio am dy gariad drud
Fel na bôm drist.
Fe'n cyfoethogwyd oll i gyd
Gan Iesu Grist.
O Dduw, y gallu inni moes
I ninnau wneuthur yn ein hoes
Y pethau bychain, er pob loes,
A wnaeth y sant.
Yn enw Iesu Grist y groes,
Clyw lef dy blant.

Dewi W. Thomas